Newidiadau yn yr Hinsawdd, Effeithiau a Chamau Gweithredu

PECYN GWEITHGAREDD

8 o Gardiau **Newidiadau**

11 o Gardiau **Effeithiau**



11 o Gardiau **Gweithredu**



6 o Gardiau **Pobl**

20 munud +	Ystafell ddosbarth	Gêm	Dod o hyd i atebion i effeithiau newid yn yr hinsawdd	1-2 arweinydd

ADDASIADAU SNAP

Byddwch angen (fesul grŵp): 4 set o gardiau **gweithredu** + 1 set o gardiau **effeithiau**

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 4 a'u cael i eistedd o amgylch y bwrdd/mewn cylch.
- Gwiriwch ddealltwriaeth o gysyniadau effeithiau a gweithredoedd yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd.
- Cyflwynwch enghraifft o gerdyn effaith a cherdyn gweithredu, ac egluro sut y gall gweithredoedd leihau effeithiau.
- Deliwch y cardiau gweithredu i bob person yn y grwpiau a rhowch 5 munud iddynt ddarllen y cardiau.
- Deliwch y cardiau effeithiau sy'n wynebu i lawr mewn pentwr yn y canol a dywedwch wrth y grwpiau nad ydyn nhw'n cael edrych arnyn nhw nes i'r gêm ddechrau.
- Esboniwch, pan fydd y gêm yn dechrau, bod yn rhaid i rywun yn y grŵp droi'r cerdyn effaith sydd ar dop y pentwr drosodd a rhaid i bawb ddewis gweithred i ddelio â'r effaith a rhoi'r cerdyn i lawr cyn gynted ag y gallant. Mae'r person cyntaf yn y grŵp sy'n gwneud hynny yn ennill pwynt, ond rhaid iddo ef/hi hefyd roi rheswm da pam mae eu gweithred yn mynd i'r afael â'r effaith, fel arall tynnir pwynt i ffwrdd. Neilltuwch rywun ym mhob grŵp i gadw sgôr.
- Mae yna 11 cerdyn effaith, felly mae 11 rownd o'r gêm. Dylai aelod o staff gychwyn a gorffen pob rownd.
- Yr enillydd yw'r sawl sydd â'r nifer uchaf o bwyntiau yn y grŵp ar y diwedd (ac efallai'n cael gwobr?).

AMSER YCHWANEGOL: Rhwng pob rownd, gallai pob grŵp ddewis rhywun i ddweud wrth y dosbarth y weithred "fuddugol" gan eu grŵp a pham enillodd.

30 munud +	Yn yr Awyr Agored	Sesiwn syniadau	Cymryd camau gweithredu lleol	2+ arweinydd

PA GAMAU GWEITHREDU NEWID YN YR HINSAWDD Y GALLWN NI EU GWNEUD YN YR YSGOL?

Byddwch angen (fesul grŵp): 1 set o gardiau **gweithredu**.

- Penderfynwch ar leoliad ar dir yr ysgol i weithio ynddo, byddem yn argymell man gwyrdd neu agored (ond gall unrhyw le sydd ar gael weithio!)
- Tra'ch bod chi yn yr ystafell ddosbarth, eglurwch y cysyniad o gamau gweithredu yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd - efallai yr hoffech chi ddangos pob cerdyn i'r dosbarth i wirio dealltwriaeth. Esboniwch y byddwch chi'n mynd i leoliad gwahanol lle byddwch chi i gyd yn archwilio syniadau mewn grwpiau ar sut y gallwn ni weithredu ar newid yn yr hinsawdd ar dir yr ysgol.
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, argymhellir 6-8 ond gallwch chi addasu i nifer yr arweinwyr. Rhowch set o gardiau i bob grŵp i ofalu amdanyn nhw a mynd â nhw i'r lleoliad, gan eu heistedd yn eu grwpiau.
- Gofynnwch i'r dosbarth gymryd 5 munud i edrych o gwmpas - gofynnwch iddyn nhw beth alla nhw ei weld a pham y gallai fod yn bwysig cael y lle hwnnw yn yr ysgol.
- Esboniwch yr hoffech iddyn nhw gerdded o gwmpas a dewis tri cham a fyddai'n dda i'w gwneud i amddiffyn neu wella'r gofod - efallai yr hoffech chi gael y myfyrwyr i lynu eu cardiau gweithredoedd yn y lleoedd maen nhw am iddyn nhw ddigwydd a chael pob un grŵp i gyflwyno eu syniadau.
- Pan gyrhaeddwch yn ôl i'r ystafell ddosbarth, fe allech chi gasglu'r gweithredoedd mwyaf cyffredin a gallai arweinwyr eu cyflwyno i reolwyr yr ysgol.

AMSER YCHWANEGOL: Cadwch gofnod dosbarth o sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol a cheisiwch leihau siwrneiau ceir, neu ddiffodd cyfrifiaduron a goleuadau pan nad oes eu hangen.

2 awr +

Taith maes

Archwilio

Deall newid yn yr hinsawdd

3+ arweinydd

SUT MAE EIN HARFORDIR YN NEWID?

Byddwch angen (fesul grŵp): 1 set o gardiau **newidiadau** a hen luniau o'r ardal (gellir dod o hyd i'r rhain ar-lein).
Dewisol ychwanegol: 1 set o gardiau **effeithiau** i bob grŵp.

- Ymlaen llaw bydd angen i chi benderfynu ar leoliad arfordirol i fynd â'r dosbarth iddo - mae traethau lleol fel arfer yn lle gwych i edrych ar newid.
- Cyn i chi fynd, cyflwynwch bwnc newid yn yr hinsawdd a sut y gall effeithio ar ein harfordiroedd, ac eglurwch y byddwch chi'n mynd i leoliad gwahanol lle byddwch chi i gyd yn ymchwilio i newidiadau arfordirol. Rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau bach.
- Ar ôl i chi gyrraedd y safle, rhowch y dosbarth yn eu grwpiau a dosbarthwch yr hen luniau a deciau cardiau ac esboniwch fod angen iddyn nhw lywio i ble y tynnwyd pob llun. Ar ôl iddynt ddod o hyd iddo, byddant yn dewis un neu ddau o gardiau newid yn yr hinsawdd a allai fod wedi dylanwadu ar sut mae'r arfordir wedi newid ers i'r llun gael ei dynnu. Gofynnwch iddyn nhw drafod yn eu grwpiau a rhoi adborth i'r dosbarth.
- Efallai yr hoffech chi siarad am effeithiau posibl y newidiadau hyn ar bobl leol sy'n defnyddio'r cardiau effeithiau, fe allech chi wneud hyn ar y safle neu fynd â nhw yn ôl i'r ystafell ddosbarth. Pa effaith allai gael yr effaith fwyaf?
- Os na allwch drefnu taith i'r arfordir gallwch yn hytrach ddefnyddio meddalwedd gwylio stryd. Edrychwch ar ein hadnodd taith maes Amroth ar gyfer mwy o weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.

AMSER YCHWANEGOL: Gofynnwch i arbenigwr lleol siarad â'r dosbarth am sut mae'r arfordir wedi newid yn y gorffennol o'i gymharu â sut mae'n newid nawr.

30 munud +	Ystafell ddosbarth	Gêm	Cysylltu newidiadau yn yr hinsawdd, effeithiau a chamau gweithredu	1-2 arweinydd

GWEITHREDU” AR NEWID YN YR HINSAWDD!

Byddwch angen (fesul grŵp): 1 set o bob dec (**newidiadau** yn yr hinsawdd, **effeithiau**, **gweithredoedd** a **phobl**) a bwrdd gwyn ar gyfer cadw sgôr.

- Cyflwynwch y deciau cardiau ac egluro beth mae pob un yn ei olygu, gan roi enghraifft o ddilyniant o: “newid yn yr hinsawdd - effaith - gweithredu - pobl sy'n gyfrifol am weithredu” a sut mae'r cardiau'n cysylltu â'i gilydd.
- Rhannwch y dosbarth yn dimau o 4 ac eglurwch y byddant yn chwarae yn erbyn ei gilydd. Gofynnwch i bob grŵp ddewis enw tîm ar thema eco ac ysgrifennu'r rhain ar y sgorfwrdd ymlaen llaw.
- Deliwch y deciau i bob grŵp ac esboniwch y bydd yn rhaid i dimau ddefnyddio'r cardiau i actio'r dilyniant uchod i weddill y dosbarth. Mae'r grŵp yn sefyll i fyny a gall pob person actio un o'r cardiau hyn mewn trefn, ac fel charades, ni chaniateir iddynt siarad nac ysgrifennu unrhyw beth i'w helpu i gyfleu'r hyn sydd ar y cerdyn. Rhowch 5 munud i bob grŵp drafod beth fydd eu dilyniant cyntaf a phwy fydd yn actio pob cerdyn. Mae'r person cyntaf i roi ei law i fyny a rhoi'r ateb cywir ar ôl actio pob cerdyn yn ennill pwynt i'w dîm. Bydd arweinydd yn cadw sgôr ac yn cael y gair olaf ar bwy sy'n rhoi dwylo i fyny gyntaf!
- Fel amrywiad gêm, fe allech chi gael y grŵp i actio eu dilyniant gyda'i gilydd ac yna rhewi wrth i'r dosbarth drafod yr hyn sy'n digwydd.
- Yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael gallwch ailadrodd mwy o rowndiau o'r gêm, ac efallai yr hoffech chi roi gwobr i'r tîm buddugol hefyd.

AMSER YCHWANEGOL: Ar gyfer pwyntiau bonws, gofynnwch i grwpiau lunio eu gweithredoedd “nodchwiliwr” eu hunain a'u taflu yn y gymysgedd i’w actio.

30 munud +	Ystafell ddosbarth	Sesiwn syniadau	Nodi lleoedd sydd mewn perygl o newid yn yr hinsawdd	1-2 arweinydd

MAPIO EFFAITH

Byddwch angen (fesul grŵp): Map golygfaol syml o'r ardal leol, yn ddelfrydol maint A2/A3, gyda nodweddion mawr wedi'u labelu fel ysgolion, busnesau, ysbytai, clystyrau tai ac ati + 1 set o bob dec o gardiau **newidiadau**, **effeithiau** a **gweithredoedd**.

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a chyflwynwch y deciau cardiau - eglurwch ystyr pob dec a sut mae'r cardiau'n cysylltu â'i gilydd.
- Esboniwch fod y map ar bob bwrdd o'r ardal leol, ac fel yr ymarfer cyntaf, gofynnwch i bob person nodi ei dŷ.
- Deliwch y deciau cardiau i'r grwpiau a rhowch amser iddynt fynd trwy'r cardiau eu hunain (tua 10-15 munud).
- Nesaf, gofynnwch i'r grwpiau ddewis pum lle allweddol ar y map a dewis cerdyn o'r dec newidiadau y maen nhw'n meddwl sy'n fwyaf tebygol o gael effaith ar y lleoedd hynny. Ar ôl iddynt wneud hyn, ailadroddwch yr ymarfer gyda'r cardiau effeithiau a ddylai ymwneud â'r cerdyn newidiadau a ddewiswyd ganddynt.
- Ar ôl i bob grŵp gael map wedi'i gwblhau o newidiadau ac effeithiau, rhestrwch yr effeithiau mwyaf cyffredin ar y bwrdd ac yna fel dosbarth gofynnwch i rywun o bob grŵp ddewis gweithred i fynd i'r afael ag un o'r effeithiau, gan esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r weithred o'u dewis.
- Efallai yr hoffech chi gasglu'r gweithredoedd hyn ar ddiwedd y sesiwn a'u cyflwyno i reolwyr yr ysgol i weld a allai'r ysgol helpu gyda chamau newid yn yr hinsawdd yn lleol.

AMSER YCHWANEGOL: Enwebwch bob grŵp i fod yn un o'r cardiau "pobl" a'u cael i gyflwyno i'r dosbarth yr hyn y byddent yn ei wneud i weithredu yn eu hardal.

30 munud +	Ystafell ddosbarth	Gêm	Dysgu creadigol a hwyliog am newid yn yr hinsawdd	1-2 arweinydd

NEWIDWYR GÊM

Byddwch angen (fesul grŵp): 1 set o bob dec (**newidiadau** yn yr hinsawdd, **effeithiau**, **gweithredoedd** a **phobl**) a thaflen A2/A3 a marcwyr ar gyfer syniadau.

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 4-6 a chyflwynwch y deciau cardiau. Esboniwch ystyr pob un, gan roi amser i'r dosbarth ddarllen y cardiau.
- Nod y sesiwn hon yw i grwpiau lunio eu gêm eu hunain, gyda llyfr rheolau ac efallai hyd yn oed bwrdd! Gallant ddefnyddio cymaint neu gyn lleied o ddeciau cardiau ag y dymunant, gyda'r arweinwyr yn annog trafodaeth, cydweithredu a chyfle i bawb rannu eu syniadau.
- Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno eu syniad gêm i bawb, ac yna gallwch chi bleidleisio ar ba gêm mae'r dosbarth eisiau chwarae gyda'i gilydd.
- Efallai yr hoffech chi hefyd gael bwrdd sgorio ar gyfer enillwyr pob grŵp a dyrannu gwobrau.

AMSER YCHWANEGOL: Gofynnwch i'r grwpiau wneud fideo yn esbonio'r cardiau, eu gêm a'u rheolau, a naill ai ei lanlwytho i wefan yr ysgol ... neu wneud "sioe dangos a dweud" mewn gwasanaeth ysgol gyfan.

Newidiadau yn yr Hinsawdd, Effeithiau a Chamau Gweithredu

Ychydig o syniadau'n unig yw'r rhain i'ch rhoi ar ben ffordd - croeso i chi ddefnyddio'r cardiau mewn unrhyw ffordd rydych chi'n dymuno!

I gael mwy o syniadau gweithgareddau, edrychwch ar ein hadnoddau addysgu newid yn yr hinsawdd, ac i gael mwy o wybodaeth am Raglen Cwricwlwm Arfordirol PCF cliciwch yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth, cysylltwch â:

Alex Cameron-Smith, Cydlynydd Ymgysylltu â'r Gymuned a Newid yn yr Hinsawdd (CCAT): alex.cameron-smith@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

Tim Brew, Rheolwr Addysg yn PCF: tim.brew@pembrokeshirecoastalforum.org.uk